


## BETH YW DIWRNOD SHWMAE SU'MAE?

- Cyfle i ddathlu'r Gymraeg yn eich cymuned, gweithle neu ysgol.
- Dydd arbennig i annog y genedl i ddechrau pob sgwrs gyda Shwmae neu Su'mae.
- Cyn pen dim bydd un Shwmae neu Su'mae yn troi yn gannoedd neu filoedd trwy gydol y flwyddyn

## PWY SY'N CYMRYD RHAN?

- Mae'n agored i bawb, o bob oedran, o bob cwr o Gymru.
- Mudiad ambarél Dathlu'r Gymraeg sy'n ysgogi'r gweithgaredd, ond mae'r diwrnod yn eiddo i bawb sydd â diddordeb mewn gweld y Gymraeg yn ffynnu.
- Di-gymraeg, dysgwr neu'n rhugl yn y Gymraeg – beth bynnag eich gallu mae'n rhywbeth i ti ac i fi ddathlu gyda'n gilydd.



### PRYD MAE DIWRNOD SHWMAE SU'MAE?

**DYDD SUL, 15fed o HYDREF**

\*Bydd nifer o ysgolion yn dathlu ar ddydd  
Gwener 13eg  
neu dydd Llun 16ed

Am syniad o be sy mlaen ar draws y wlad, ewch i:

[www.shwmae.cymru](http://www.shwmae.cymru)



@ShwmaeSumae  
#ShwmaeSumae

<https://www.facebook.com/ShwmaeSumae/>



## BLE MAE CYMRYD RHAN?

- Ymhob man! Mae'n ddiwrnod o ddathlu ar lawr gwlad ledled Cymru.
- Beth am gynnal eich digwyddiad eich hun, a dathlu mewn ffordd sy'n ystyrlon i chwi?
- Cyfle gwych i unigolion, ffrindiau, ysgolion, colegau, gweithluoedd, mudiadau, sefydliadau, busnesau ddod at ei gilydd i fwynhau.

## SUT MAE CYMRYD RHAN?

- Nid oes rheolau na rhwystrau. Gwnewch rywbeth i'w fwynhau.
- Eisiau ysbrydoliaeth? Beth am fore coffi, Sesiwn coffi a chlonc, Fflach dorf, Gwobrau Shwmae Su'mae?
- Gyda sgil neu grefft arbennig? Beth am redeg gweithdy?
- Rhedeg busnes? Beth am gynnig gostyngiad i gwsmeriaid sy'n dechrau sgwrs gyda Shwmae?
- Sefydlwch grŵp i feithrin gweithgareddau yn lleol.